# RHWYDWAITH ELUSENNAU BEICHIOGRWYDD A BABANOD

## MANIFFESTO I GYMRU 2021

MANIFFESTO 2021

RHWYDWAITH ELUSENNAU BEICHIOGRWYDD A BABANOD

# EIN 4 PRIF BLAENORIAETH

1. Gwneud Cymru yn y lle mwyaf diogel yn y byd i gael baban.

2. Rhoi gwarant mamolaeth i bob teulu eu bod yn cael gofal personol sy'n addas i'w hanghenion.

3. Rhoi'r cyfle gorau posib i fabanod sâl a chynamserol oroesi a chael ansawdd bywyd.

4. Sicrhau bod pob teulu yn cael y gofal mewn galar maent eu hangen ar ôl colli baban neu golli yn ystod beichiogrwydd.

RHWYDWAITH ELUSENNAU BEICHIOGRWYDD A BABANOD

# Sut y gallwn gyflawni ein pedair blaenoriaeth

Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael effaith ddinistriol ar unigolion, teuluoedd a chymunedau, yn ogystal â rhoi'r GIG dan bwysau mawr a pharhaus. Yn ystod cyfnod y maniffesto hwn, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymrwymo i gefnogi staff GIG i gyflawni y pedwar amcan a nodir isod.

## 1 Gwneud Cymru yn y lle mwyaf diogel yn y byd i gael baban trwy:

- Gyflwyno targedau cenedlaethol i leihau marw-enedigaethau, marwolaethau newyddanedigion a genedigaethau cynamserol.
- Sicrhau bod strategaethau ac adnoddau ar gael i'r gwasanaethau er mwyn cyflawni'r targedau hyn, ac adrodd ar y cynnydd yn flynyddol.
- Ymrwymo i nodi a lleihau anghydraddoldebau yn y risg o farwolaethau amenedigol.

## 2 Rhoi gwarant mamolaeth i bob teulu eu bod yn cael gofal personol sy'n addas i'w hanghenion trwy:

- Rhoi gweithiwr iechyd mamolaeth arweiniol i bob teulu a fydd yn edrych ar eu hôl yn ystod eu beichiogrwydd a'r enedigaeth, gan roi blaenoriaeth i'r rhai sydd â risg uwch o gael canlyniadau gwael, erbyn 2025.
- Gweithio gyda phob merch ac unigolyn sy'n rhoi genedigaeth i ddatblygu cynllun geni wedi ei deilwra i'w hanghenion unigol.
- Darparu cofnod mamolaeth digidol y gall pob merch ac unigolyn sy'n rhoi genedigaeth, a'r gweithwyr sy'n gysylltiedig â'u gofal, gael mynediad hawdd iddynt.

# Sut y gallwn gyflawni ein pedair blaenoriaeth

## 3 Rhoi'r cyfle gorau posib i fabanod sâl a chynamserol oroesi a chael ansawdd bywyd drwy:

- Sicrhau bod rhieni yn rhan ganolog o ofalu am eu babanod.
- Sicrhau bod nyrs arbenigol yn gofalu am bob baban yn yr uned gofal dwys i'r newyddanedig.

## 4 Sicrhau bod pob teulu yn cael y gofal mewn galar maent eu hangen ar ôl colli baban neu golli yn ystod beichiogrwydd trwy:

- Ymrwymo i ddatblygu Llwybr Gofal mewn Galar Cymru sy'n cwmpasu pob agwedd ar golli baban neu golli yn ystod beichiogrwydd.
- Sicrhau bod pob beichiogrwydd ar ôl dau gamesgoriad cynnar, un camesgoriad hwyr, terfynu beichiogrwydd oherwydd anomaledd y ffetws, marw-enedigaeth, genedigaeth cynamserol neu farwolaeth newyddanedig yn cael cynnig gofal risg uchel ac yn cael cymorth ychwanegol.

RHWYDWAITH
ELUSENNAU
BEICHIOGRWYDD
A BABANOD

Gweler y rhestr o elusennau...

# RHWYDWAITH ELUSENNAU BEICHIOGRWYDD A BABANOD

Yr elusennau sy'n rhan o'r rhwydaith hyd yn hyn

Aching Arms®
Registered charity number 1153296

ACTION ON PRE-ECLAMPSIA
PROMOTING SAFER PREGNANCY
www.apec.org.uk

ARC
Antenatal Results & Choices

BABY LIFELINE
The Mother and Baby Charity

best beginnings
working to give every child the best start in life

birth companions

Child Bereavement UK
REBUILDING LIVES TOGETHER

Bliss
for babies born premature or sick

borne
Research to prevent premature birth

CMV Action
EDUCATE • VACCINATE • ERADICATE

The Ectopic Pregnancy Trust
Registered Charity No. 1071811

Group B Strep Support
www.gbss.org.uk

genesis research trust

ICP Support

Kit Tarka Foundation
Preventing newborn baby deaths through research & education

the lullaby trust
safer sleep for babies – support for families

Parhad...

# RHWYDWAITH ELUSENNAU BEICHIOGRWYDD A BABANOD


**Keith Reed - Cadeirydd**
keithreed@twinstrust.org
**Clea Harmer - Is-gadeirydd**
cleaharmer@sands.org.uk
**Munira Oza - Ysgrifennydd**
munira@ectopic.org.uk


Mae'r elusennau uchod i gyd wedi cyfrannu tuag at ein pedair blaenoriaeth ac mae mae ganddynt bob un arbenigedd yn eu maes. Os hoffech unrhyw wybodaeth pellach cysylltwch gyda ni os gwelwch yn dda ac fe wnawn sicrhau fod y person yn cywir yn eich ateb. Diolch am eich diddordeb a'ch cefnogaeth.